

# CYLCHLYTHYR IECHYD CYMRU



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

Dyddiad Cyhoeddi: 23 Chwefror 2017

**STATWS: GWEITHREDU**

**CATEGORI: LLYTHYR GWEITHIWR IECHYD PROFFESIYNOL**

**Teitl: Canllaw Arfer Da ar Ddarparu Cymorth Iechyd Meddwl i Geiswyr Lloches a Ffoaduriaid sydd wedi'u hanfon i Gymru**

**Dyddiad Dod i ben / Dyddiad yr Adolygiad Nid yn Gymwys**

**I'w weithredu gan:**

Is-gadeiryddion y Byrddau Iechyd  
Cyfarwyddwyr Gofal Sylfaenol, Cymunedol ac Iechyd Meddwl  
Arweinwyr Clinigol Iechyd Meddwl i Oedolion  
Arweinwyr Clinigol CAMHS  
Arweinwyr Gofal Cychwynnol  
Meddygaeth Teulu  
Gweithwyr Proffesiynol Iechyd Meddwl

**Angen gweithredu erbyn: 27 Chwefror 2017**

**Anfonwr: Dr Sarah Watkins, Adran Iechyd y Cyhoedd a'r Proffesiynau Iechyd**

**Enw(au) Cyswllt GIGC Llywodraeth Cymru :**

Jason Pollard, Is-adran Grwpiau Iechyd Meddwl ac Agored i Niwed, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ  
[Jason.pollard@wales.gsi.gov.uk](mailto:Jason.pollard@wales.gsi.gov.uk)  
Ffon: 02920823215

**Dogfennau amgaeedig:** Canllaw Arfer Da ar Ddarparu Cymorth Iechyd Meddwl i Geiswyr Lloches a Ffoaduriaid sydd wedi'u hanfon i Gymru



Is-gadeiryddion y Byrddau Iechyd  
Cyfarwyddwyr Gofal Sylfaenol, Cymunedol ac Iechyd Meddwl  
Arweinwyr Clinigol Iechyd Meddwl i Oedolion  
Arweinwyr Clinigol CAMHS

Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

Ein cyf/Eich cyf:

Chwefror 2017

Annwyl Gyfaill

## **DARPARU GWASANAETHAU IECHYD MEDDWL I FFOADURIAID A CHEISWYR LLOCHES**

Dros yr wythnosau diwethaf mae Llywodraeth Cymru wedi neilltuo £40,000 i gomisiynu hyfforddiant i staff y Gwasanaethau Iechyd Meddwl i Oedolion ac i Blant a'r Glasoed ar drawma seicolegol, er mwyn rheoli trawma ymysg ffoaduriaid a cheiswyr lloches.

Rwy'n deall bod yr hyfforddiant wedi cael ei gomisiynu, ac y bydd yn dechrau'n fuan. Un o'r amcanion oedd sicrhau bod staff priodol y byrddau iechyd yn cael mynediad cyfartal at yr hyfforddiant, er bod pwyslais ar staff byrddau iechyd sy'n cwmpasu ardaloedd lle anfonir ffoaduriaid a cheiswyr lloches. Bydd hyn yn ffordd o sicrhau digon o staff gyda'r sgiliau angenrheidiol i ddiwallu anghenion iechyd meddwl oedolion a phlant.

O ganlyniad i'r datblygiad hwn, mae bellach yn briodol i fyrddau iechyd ystyried sut y maent yn darparu gwasanaethau iechyd meddwl i'r garfan hon. Er mwyn cefnogi byrddau iechyd a sicrhau cysondeb o ran darpariaeth fe ddatblygodd Llywodraeth Cymru, gan gydweithio gyda byrddau iechyd a phartneriaid eraill, *Canllaw Arfer Da ar Ddarparu Cymorth Iechyd Meddwl i Geiswyr Lloches a Ffoaduriaid sydd wedi'u hanfon i Gymru* (wedi'i atodi) yn 2016. Mae'n disgrifio'r broses a'r trywydd y mae angen i fyrddau iechyd ei dilyn er mwyn sicrhau bod problemau iechyd meddwl yn cael eu hadnabod a'u trin yn briodol.

Dylid defnyddio'r canllawiau ochr yn ochr â chanllawiau cynharach a ddatblygwyd gan Iechyd Cyhoeddus Cymru ar sgrinio newydd-ddyfodiaid sy'n cyrraedd drwy Gynllun Adleoli Pobl sy'n Agored i Niwed o Syria (VPRS) i ddarparwyr gwasanaethau yng Nghymru (2015) ac ar fynediad at wasanaethau'r GIG ar gyfer Ceiswyr Lloches, Ceiswyr Lloches Aflwyddiannus a Ffoaduriaid, canllaw byr i feddygfeydd teulu (2016).



**BUDDSODDWR** | **INVESTORS**  
**MEWN POBL** | **IN PEOPLE**

Parc Cathays • Cathays Park  
Caerdydd • Cardiff  
CF10 3NQ

Ffôn • Tel 029 20 82 5222  
Sarah.watkins@wales.gsi.gov.uk  
Gwefan • website: [www.wales.gov.uk](http://www.wales.gov.uk)

Hefyd bydd diddordeb gennych wybod ein bod wedi ymrwymo i ddiwygio canllawiau 2009 Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol Cymru ar faterion gofal iechyd i geiswyr lloches yng Nghymru. Bydd y diwygiad hwn yn ystyried canfyddiadau'r adolygiad o faterion gofal iechyd i geiswyr lloches yng Nghymru, dogfen Iechyd Cyhoeddus Cymru 2013 na chafodd ei chyhoeddi, ac argymhellion gofal iechyd sydd i'w gweld yn y *Cynllun Cyflawni ar gyfer Ffoaduriaid a Cheiswyr Lloches*, Llywodraeth Cymru 2016. Bydd grŵp bach o randdeiliaid o'r byrddau iechyd a rhanddeiliaid allweddol eraill yn dod ynghyd i helpu gyda'r gwaith diwygio, a fydd gobeithio'n cael ei gwblhau'n gyflym ac yn barod yn ystod yr haf.

Os oes gennych unrhyw ymholiadau ynghylch y llythyr hwn, mae croeso i chi gysylltu â Jason Pollard ([Jason.pollard@wales.gsi.gov.uk](mailto:Jason.pollard@wales.gsi.gov.uk) / ffôn: 02920823215) sy'n arwain y gwaith hwn.

Yn gywir,

*Dr Sarah Watkins*

**Pennaeth yr Is-adran Grwpiau Iechyd Meddwl ac Agored i Niwed  
Head of Mental Health and Vulnerable Groups Division**

**Uwch Swyddog Meddygol  
Senior Medical Officer  
Adran Iechyd y Cyhoedd a'r Proffesiynau Iechyd  
Public Health and Health Professions Department**

## **Canllaw Arfer Da ar Ddarparu Cymorth Iechyd Meddwl i Geiswyr Lloches a Ffoaduriaid sydd wedi'u hanfon i Gymru**

1. Bydd ceiswyr lloches a ffoaduriaid sy'n cael eu hanfon i Gymru wedi cael naill ai Aseiad Iechyd Cychwynnol gan Bractis Mynediad at Ofal Iechyd Caerdydd (yn achos ceiswyr lloches) neu Aseiad Iechyd Mudwyr gan y Sefydliad Rhyngwladol dros Fudo (yn achos ffoaduriaid o Syria) cyn cyrraedd. Yn y ddau achos, bydd y ffurflenni asesu'n cael eu darparu o flaen llaw i'r practis gofal sylfaenol lle bydd yr unigolion i'w cofrestru. Bydd y ffurflen asesu'n cynnwys gwybodaeth ynghylch unrhyw broblemau iechyd meddwl a nodwyd yn ystod yr aseiad cychwynnol.
2. Dylai'r practis gofal sylfaenol sy'n cofrestru'r ceisiwr lloches neu ffoadur fel claf sicrhau bod y broses o gofrestru, sgrinio ac asesu'r claf yn cynnwys y canlynol:
  - ystyriaeth o unrhyw broblemau iechyd meddwl a gofnodwyd yn ei Aseiad Iechyd Cychwynnol neu Aseiad Iechyd Mudwyr
  - cadarnhau diagnosis drwy aseiad iechyd meddwl priodol
  - darparu unrhyw driniaeth angenrheidiol fel byddai'n digwydd ar gyfer unrhyw glaf arall, naill ai drwy'r tîm gofal sylfaenol neu, os oes angen, drwy gyfeirio at Wasanaethau Cymorth Iechyd Meddwl Gofal Sylfaenol Lleol (LPMHSS), y Tîm Iechyd Meddwl Cymuned (CMHT) neu'r Gwasanaeth Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS)
  - nodi'r cod Read priodol i gofnodi statws y claf fel ffoadur neu geisiwr lloches.
3. Gall rhai ceiswyr lloches a ffoaduriaid ddod o ardaloedd lle mae'r agweddau diwylliannol at iechyd meddwl, neu ddealltwriaeth ohono a'r ffyrdd o'i drin, yn wahanol iawn i'r rhai yn y DU. Gall hyn olygu weithiau bod unigolion yn gyndyn o drafod materion yn ymwneud ag iechyd meddwl, neu fod ganddynt ddealltwriaeth wahanol o'r hyn sy'n cyfrif fel problem iechyd meddwl. Felly mae'n bwysig ystyried iechyd meddwl mewn ffordd sensitif yn ddiwylliannol yn ystod yr aseidiadau gofal sylfaenol cychwynnol, gan gydnabod y gwahaniaethau posibl hyn. Er enghraifft:
  - Os oes angen cymorth gyda'r iaith, gall fod yn ddefnyddiol cadarnhau wrth drefnu'r apwyntiad cychwynnol a fyddai'n well gan yr unigolyn gael cyfieithydd nad yw'n ei adnabod drwy Wasanaeth Cyfieithu a Chyfieithu ar y Pryd Cymru, neu ofyn i ffrind, perthynas neu aelod o'r gymuned leol gyfieithu. Hefyd, a fyddai'n well ganddo gael cyfieithiad dros y ffôn neu wyneb yn wyneb.
  - Sicrhau bod unigolyn yn deall fod cyflyrau fel iselder ysbryd, pryder neu anhwylder straen wedi trawma (PTSD) - ac nid dim ond anhwylderau seicotig difrifol - yn broblemau iechyd meddwl y gellir eu trin gan y GIG drwy ddulliau ffarmacolegol a/neu seicolegol, ac nad oes stigma ynghlwm â phroblemau iechyd meddwl yng Nghymru.
  - Cyfeirio at sefydliadau fel Cyngor Ffoaduriaid Cymru sy'n darparu amrywiaeth o gymorth a chyngor yn ychwanegol at yr hyn sy'n cael ei ddarparu gan y GIG, gan gynnwys cymorth cymheiriaid a hybu iechyd meddwl.
4. Mae'r trywydd sydd wedi'i atodi'n disgrifio'r broses y dylid ei dilyn er mwyn sicrhau bod problemau iechyd meddwl yn cael eu hadnabod a'u trin yn briodol.

## Canllaw Arfer Da ar Ddarparu Cymorth Iechyd Meddwl i Geiswyr Lloches a Ffoaduriaid sydd wedi'u hanfon i Gymru

